# Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda

## Ysbyty'r Tywysog Philip, Llanelli.

## Sir Gaerfyrddin

## <u>Rhaglen Sylfaen</u>



# Tabl Cynnwys


| | | |
|---|---|---|
| 1. | Gwybodaeth am y lleoliad | **2** |
| 2. | Gwybodaeth Gyffredinol am Ysbyty'r Tywysog Philip | **6** |


# Croeso i Orllewin Cymru

Mae Gorllewin Cymru yn darparu cyfle ffordd o fyw gwych. Mae pob un o'n prif safleoedd yn Hywel Dda wedi'u lleoli mewn ardaloedd arfordirol gyda thraethau hardd a mynyddoedd ysblennydd, i gyd o fewn cyrraedd hawdd. Mae gweithgareddau hamdden cyffrous fel syrffio, beicio mynydd, pysgota, hwylio, heicio a cherdded i gyd ar gael yn yr ardal hon.

## Gweithio ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda

Mae Bwrdd Iechyd Hywel Dda yn gwasanaethu cyfanswm poblogaeth o tua 385,000 trwy siroedd Sir Gaerfyrddin, Ceredigion a Sir Benfro.

Mae'r Bwrdd Iechyd yn cysylltu â Phrifysgolion Aberystwyth, Abertawe, Caerdydd a Bangor, yn ogystal â chael perthynas waith dda gyda Llyfrgell Genedlaethol Cymru. Mae llawer o'n hymgynghorwyr yn Ddarlithwyr cysylltiedig, Uwch Ddarlithwyr ac Athrawon Cyswllt.

### Gwasanaethau Llyfrgell a Gwybodaeth

Mae Llyfrgell a Gwasanaethau Gwybodaeth Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda yn cynnig ystod eang o adnoddau, print ac ar-lein, a gwasanaethau i holl staff y Bwrdd Iechyd, Hyfforddeion a Myfyrwyr ar leoliad.

Mae pob Llyfrgell yn cael ei rheoli gan Lyfrgellydd cymwysedig ac mae ein staff cyfeillgar a gwybodus yma i gefnogi eich anghenion gwybodaeth ar gyfer gofal cleifion, addysg, gwella ansawdd ac ymchwil.

# Llanelli




Mae Llanelli wedi'i lleoli tua 10 milltir i'r gorllewin o Abertawe a 12 milltir i'r de-ddwyrain o Gaerfyrddin ac mae ganddi boblogaeth o tua 35,000 o bobl.

Bydd cefnogwyr rygbi wrth eu bodd yn byw mewn tref ag iddi draddodiad rygbi balch, gyda Pharc y Scarlets ar garreg y drws. Bydd y rhai sy'n mwynhau bod allan yn yr awyr agored yn mwynhau Parc Arfordirol y Mileniwm a Chanolfan Gwlyptir Llanelli Ymddiriedolaeth Adar y Gwlyptir (WWT). Mae tai a chestyll hanesyddol o fewn tafliad carreg hefyd. Mae cyrchfan golff o safon fyd-eang a gynlluniwyd gan Nicklaus ar gyrion y dref.



Mae Parc Manwerthu Trostre yn darparu profiad siopa modern, gan gynnwys ystod eang o siopau stryd a mannau bwyta. Mae canol tref Llanelli hefyd yn gartref i amrywiaeth o siopau stryd fawr yn ogystal â nifer o siopau annibynnol a chaffis.



I'ch diddanu, mae sinema pum sgrin yr Odeon a Theatr Y Fwrnes, sy'n cynnal amrywiaeth eang o sioeau. Yn sgil cysylltiadau trafnidiaeth gyhoeddus da mae digwyddiadau eraill yn ne Cymru o fewn cyrraedd rhwydd.

## Ysbyty'r Tywysog Philip



Mae Ysbyty'r Tywysog Philip wedi'i lleoli ar gyrion, Llanelli, o fewn cyrraedd rhwydd i draffordd yr M4 a ffordd liniaru'r arfordir. Mae'r ysbyty ar lwybrau bysiau, gan gynnwys cyswllt o'r orsaf.

Mae'r ysbyty wedi elwa o fuddsoddiad 'blaen tŷ' newydd, ac yn cynnwys Uned Asesu Feddygol Acíwt ac Uned Mân Anafiadau. Mae'r ysbyty yn darparu gwasanaethau Meddygaeth Acíwt, Llawfeddygaeth Colorectal Ddewisol, Wroleg a gwasanaethau Orthopedig rhanbarthol.

Mae gan Hyfforddeion a Myfyrwyr Meddygol fynediad i Lab Sgiliau Clinigol cwbl weithredol. Ceir yno hefyd raglen o sefyllfaoedd yn cynnwys cleifion yn seiliedig ar efelychiad.

Mae Ysbyty'r Tywysog Philip/ ardal Llanelli wedi ennill rhagoriaeth mewn:-

- Pentref Llesiant a Gwyddor Bywyd yn Llynnoedd Delta, Llanelli. Mae'r fenter yn cwmpasu De-orllewin Cymru gyfan a bydd o fudd i filiwn o bobl.
- Rhagoriaeth ym maes Meddygaeth Fewnol

    - Resbiradol – yn darparu canolfan a dull pwrpasol o ddarparu gofal is-arbenigedd ledled y Bwrdd Iechyd, gan gynnwys; Gwasanaeth Broncosgopi Ymyrrol Profiadol, Gwasanaethau Cwsg a Methiant Resbiradol Uwch, a Gwasanaeth Asthma Anodd.
    - Cardioleg – Angiograffeg Goronaidd. Gwasanaeth trin a throsglwyddo'r Bwrdd Iechyd gyda chysylltiad ag Ysbyty Treforys
    - Gofal yr Henoed – Gwasanaeth Eiddilwch Acíwt Newydd, a gwasanaeth strôc helaeth.
    - Diabetes ac Endocrin – Darparu gofal cymhleth
    - Gastroenteroleg – Darparu gwasanaeth yr afu a Chlefyd Llid y Coluddyn (IBD) ledled y Bwrdd Iechyd, ac ystod lawn o weithdrefnau endosgopig.
- Uned y Fron o'r radd flaenaf.
- Uned Orthopedig Ranbarthol wedi'i chysylltu â BIP Bae Abertawe.

Anogir pob hyfforddai i gymryd rhan yn yr Agenda Ansawdd a Diogelwch trwy gwblhau Archwiliadau Clinigol a Phrosiectau Gwella Ansawdd.

# Llety yn yr Ysbyty

Cynigir llety ysbyty am ddim i bob Meddyg Sylfaen yng Nghymru gydol eu Blwyddyn Sylfaen 1.

Isod rydyn ni wedi amlinellu'n fras y llety sydd ar gael o fewn y Bwrdd Iechyd hwn:-

- Mae'r llety ar gyfer doctoriaid Sylfaen wedi'i leoli yn y blociau preswyl dynodedig sydd o fewn tafliad carreg i'r ysbyty a'r Ganolfan Addysg Feddygol.
- Ystafelloedd sengl sy'n cael eu darparu, ond mae rhai fflatiau i barau priod y gellid eu rhentu, yn ddibynnol ar argaeledd.
- Mae gan bob bloc fflatiau gyda thri neu bedair ystafell wely sy'n rhannu cegin ac ystafell ymolchi. Mae gan rai ystafelloedd doiled a chawodydd en-suite.

- Mae maes parcio at ddefnydd y preswylwyr ar safle'r ysbyty.
- Mae gan y Feddygon Wi-Fi a chegin. Codir tâl misol i dalu am y cyfleusterau.

Y Swyddog Llety yw Christine Choudry: Christine.Choudry@wales.nhs.uk

